**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-585
Ein cyf/Our ref EH/05284/14

William Powell AC

deisebau@cymru.gov.uk

12 Mawrth 2015

Annwyl William,

Rwy'n ysgrifennu atoch i gyflwyno'r manylion diweddaraf ynghylch ein cynlluniau ar gyfer dwy gyffordd ar yr A470 ger Dolgellau.

Wedi edrych ar y lluniau ar y teledu cylch cyfyng o gyffyrdd yr A493 a'r A494, rwyf wedi penderfynu y byddai gosod cylchfannau ar y ddwy gyffordd yn cynnig yr ateb mwyaf priodol i ddefnyddwyr ffyrdd a'r gymuned leol.

Bydd angen inni nodi ffyrdd priodol o liniaru effaith ecolegol y gwaith hwn, a bydd yr astudiaethau hyn yn dechrau yn y gwanwyn pan fydd rhywogaethau fel yr ystlumod pedol lleiaf yn bywiogi. Bydd yr astudiaethau a'r cynlluniau yn cael eu cwblhau drwy gydol yr haf a dylai'r gwaith adeiladu ddechrau yn gynnar yn 2016, i'w gwblhau ddechrau'r gwanwyn 2017. Rwyf wedi sicrhau bod cyllid ar gael yn ystod 2015/16 a 2016/17.

Yn y cyfamser, rwyf wedi gofyn i swyddogion gynnal unrhyw welliannau posibl i'r goleuadau traffig dros dro ar y cyffyrdd, er mwyn tarfu llai yn ystod misoedd yr haf. Ar gyfer digwyddiadau mawr fel y Sioe Frenhinol, efallai y bydd angen rheoli'r goleuadau â llaw yn ystod oriau brig.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*